O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 1618 (Cy. 206)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Dowlais, Merthyr Tudful i Gyffordd Gorllewin Glynebwy, Blaenau Gwent) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *17 Awst 2015* |
| *Yn dod i rym* | *24 Awst 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn i rym ar 24 Awst 2015 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Dowlais, Merthyr Tudful i Gyffordd Gorllewin Glynebwy, Blaenau Gwent) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2015.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 24 Awst 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*" ) yw:

i. y darn o gerbytffordd tua’r dwyrain y gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd â Chylchfan Dowlais Top ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful hyd at drwyniad y ffordd ymadael tua’r dwyrain wrth gyffordd Gorllewin Glynebwy ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, gan gynnwys y darnau cyfan o’r ffyrdd ymadael ac ymuno tua’r dwyrain yng Nghyfnewidfa Rhymni a Chyfnewidfa Tredegar;

ii. y darn o gerbytffordd tua’r gorllewin y gefnffordd sy’n ymestyn o drwyniad y ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth gyffordd Gorllewin Glynebwy ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent hyd at ei chyffordd â Chylchfan Dowlais yr A4060 ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, gan gynnwys y darnau cyfan o’r ffyrdd ymadael ac ymuno tua’r gorllewin yng Nghyfnewidfa Tredegar a Chyfnewidfa Rhymni.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau a Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddydd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o’r gefnffordd ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a’r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 17 Awst 2015

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi.

**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.